# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Steven Bletsoe**

**Ward: Canol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Pen-y-bont ar Ogwr ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 288 o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch chi, rwyf wedi bod yn bresennol mewn nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.<br><br>Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf, cefais fy mhenodi ar dri phwyllgor, Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol 3 (Cymunedau), Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio ochr yn ochr ag ymrwymiadau'r Cyngor Llawn. Yn ystod fy mlwyddyn fe wnes i fethu 1 cyfarfod ar draws yr holl bresenoldeb disgwyliedig:<br><br>Cynghorydd Steven Bletsoe |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Trwy gydol fy mlwyddyn gyntaf, rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â'm cydweithwyr yn y Ward, y Cynghorwyr Tim Wood a Steven Easterbrook yn gynhyrchiol i sicrhau ein bod ni'n gwasanaethu ein trigolion orau. Rydyn ni wedi parhau'n weladwy, yn hygyrch ac yn hawdd mynd atom ac wedi gweithio lle bo modd i geisio canlyniadau cadarnhaol pan fydd materion wedi codi.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau partneriaeth lleol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n bodoli ers tro megis tipio anghyfreithlon ar ystadau tai cymdeithasol yn ogystal â materion eraill sydd naill ai wedi bodoli ers tro neu wedi codi yn ystod y 12 mis diwethaf. |

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf hefyd yn Gynghorydd Tref etholedig Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Ward Morfa (yng Nghanol Pen-y-bont ar Ogwr) a’r Llidiart, Cyngor Cymunedol Coety Uchaf ar Gyngor cyfagos sy'n gartref i'r ysgol gynradd y mae plant yng Nghanol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei mynychu. Rwyf wedi gweithio ar ystod eang o fentrau ar draws pob un o’r tair rôl Cynghorydd a llawer o drydydd partïon o ddarparu mannau chwarae i blant drwy'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghoety i raglenni cymunedol trwy Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Fi oedd Maer ymadawol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar ddechrau fy nhymor a chynorthwyais y Maer newydd, y Cynghorydd Tim Wood, a gweithredu hefyd yn gymar i Ddirprwy Faeres Pen-y-bont ar Ogwr y Cynghorydd Freya Bletsoe am y flwyddyn gyfan.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf wedi aros mor weladwy ag y gallaf yn y cymunedau yr wyf wedi fy ethol i'w gwasanaethu a byddaf bob amser yn mynd i ddigwyddiadau y caf wahoddiad iddynt os wyf ar gael. Rwyf wedi mwynhau hyn yn fawr iawn ac yn teimlo ei fod yn rhan bwysig o fod yn Gynghorydd, bod ar gael bob amser ac yn hawdd mynd atynt i wrando ar drigolion pan fo angen.

**Y Cynghorydd S J Bletsoe** **Dyddiad: 21 Mehefin 2023**